# Clwb y Dwrlyn

## 1979 - 2019

**Cymdeithas Gymraeg**

**Pentyrch, Creigiau, Gwaelod y Garth a'r Cylch**

## Mwynhau a Gwerthfawrogi Cwmni




Plât o Grochendy Creigiau i ddathlu sefydlu Clwb y Dwrlyn

Mae na gylch i fywyd. Deugain mlynedd yn ôl pan gynhaliwyd y cyfarfod cynta i ystyried cychwyn Cymdeithas Gymraeg ar gyfer ardal Gwaelod y Garth, Pentyrch a Chreigiau, roedd Llywodraeth Callaghan heb fwyafrif yn San Steffan, a'r blaid lafur wedi ei rhwygo gan un pwnc sef Datganoli. Pan gyfarfu pwyllgor y gymdeithas i drefnu rhaglen gynta Clwb y Dwrlyn, roedd y wlad yng nghanol etholiad cyffredinol wedi i Callaghan golli pleidlais o ymddiriedaeth, yn dilyn canlyniad refferendwm datganoli 79. Pan gyfarfu aelodau'r Dwrlyn am y tro cyntaf roedd Margaret Thatcher yn Brif Weinidog ac wedi anghofio addewidion ei maniffesto oedd wedi gaddo sianel teledu Cymraeg ei hiaith i Gymru. Roedd emosiynau yn fregus ac unigolion yn edrych am gyfle i ddianc, pe bai ond am un noson y mis.

Deugain mlynedd yn ddiweddarach da ni yn yr un picl gwleidyddol gyda Brexit yn rhwygo cymdeithas a theuluoedd, fel oedd Datganoli wedi ei wneud nôl yn y saithdegau.

Roedd sefydlu Clwb y Dwrlyn yn hawdd oherwydd bod yna do o Gymry Cymraeg wedi ymgartrefu yma o bob rhan o Gymru, yn llawn egni, argyhoeddiad ac eisoes wedi ymladd ambell i frwydr leol ee o blaid Ffrwd Gymraeg yn ysgol y Creigiau ac yn erbyn cynllun glo brig Pentyrch. Roedd nifer o Gymry Cymraeg hefyd wedi llwyddo i esgyn i safle o gyfrifoldeb yng nghlwb rygbi Pentyrch, yn gynghorwyr lleol, yn llywodraethwyr mewn tair ysgol bentref, yn cynnal swyddi yng nghlwb golff Creigiau ac mewn nifer o fudiadau gwirfoddol lleol. Mi roedd na awch am hwyl a'r profiad o wybod sut i fynd ati i wireddu'r dyhead.

Llwyddwyd i ddenu rhai o arwyr a chewri ein diwylliant i'r Dwrlyn, ond i mi, gwir lwyddiant y Dwrlyn yw'r llwyfan a grëwyd i roi cyfle i dalentau'r aelodau ddatblygu, i ni ddod i nabod ein gilydd ac i fwynhau a gwerthfawrogi cwmni unigolion o'r un anian. I'r Gad.

Arwel Ellis Owen.
Cadeirydd 1979 - 1981 a
Llywydd Clwb y Dwrlyn.

Er yfed dŵr ei afiaith
Yn drwm at syched yr iaith
Yn brin nid â'n bro annwyl
Llawn o hyd yw'n llyn o hwyl.

Rhys Dafis




1981 Aros am Garnifal Pontardulais







2019 Penwythnos Llandeilo




1982 Ar y Gamlas ym Mhontypŵl

# Cystadlu

Mae elfen o gystadlu wedi bod yn rhan o'n gweithgareddau o'r cychwyn. Bowlio Deg oedd yn denu y criw heini. Roedd ennill y ffowlyn, gwobr yr Yrfa Chwist, yn glod arbennig. Cafwyd amryw Gwis. Braint enillwyr yr Helfa Drysor oedd trefnu'r un ganlynol!








1983 Rhwng Gwyr Pentyrch a'i Gilydd



2005 Gyrfa Chwist



2000 Cystadlu brwd yn Nhongwynlais

# Clwb Criced

Rhag ofn i rywun feddwl mai clwb a chymdeithas braidd yn draddodiadol Gymraeg a Chymreig oedd (ac ydi) Clwb y Dwrlyn, bu cyfnod o gwmpas 1985 pan gyfnewidiwyd y "*gynghanedd sain"* am "*sain y lledr ar yr helyg*", ac yn hytrach nag yn eu "*gynau gwynion*", gwelid un-ar-ddeg o'r bechgyn ar nosweithiau braf o haf yn eu siwmperi a'u trowsusau gwynion ar faes gwyrdd y Dwrlyn yn chwarae criced.

# Brethyn Cartref

Cynhaliwyd Brethyn Cartref ym mlwyddyn cyntaf Clwb y Dwrlyn ac mae'r cystadlu wedi mynd o nerth i nerth a'r cynnyrch yn helaeth. Diolch i'r Meuryn, Geraint Huws, am feirniadaethau bachog.



2017 Emlyn yn ennill Cadair y Brethyn Cartref

# Talwrn y Beirdd



1995 Tîm y Dwrlyn

Os edrychwch yn y gyfrol "Talwrn y Beirdd 7" sy'n cwmpasu cyfnod y Talwrn ar Radio Cymru rhwng mis Medi 1992 ac Awst 1994 – fe ddewch o hyd i gynnyrch dan enw'r Dwrlyn am y tro cyntaf yn y gyfres. Cyn hynny Tîm y Garth oedd yn cystadlu, a'r tîm hwnnw yn ffrwyth llafur dosbarth cynganeddu Rhys Dafis. Bu Tîm y Dwrlyn yn talyrna ar Radio Cymru hyd at ddechrau 2008, ac yn Sain Ffagan y bu iddynt ymladd (a cholli) eu gornest olaf yn erbyn Tîm Aberhafren.

Bu nifer o aelodau gwahanol yn cynrychioli'r tîm dros y blynyddoedd, a hynny dan gapteniaeth Ifan Roberts – roedd y ddiweddar Dr Dafydd Huws yn aelod brwd, a holwch Emlyn Davies, Ann Dwynwen, Wynford Ellis Owen, Huw Llywelyn Davies, Menna Thomas, Ynyr Williams, Ifan Pleming neu Rhodri -Gwynn Jones am eu hatgofion am grwydro ffyrdd Cymru benbaladr gyda'u cynnyrch!



1988 Prawf Gyrru yr Helfa Drysor

# Teithiau

Gosodwyd y safon ar gyfer teithiau Clwb y Dwrlyn gan Y Jimbori i'r Preselau yn 1996



1996 Y Jimbori yn y Tafarn Sinc



1994 Dr David Jenkins yn ein tywys o gwmpas y Bae





2010 Porth yr Ogof Ystradfellte gydag Alun Wyn Bevan

# Cylch Cadwgan

Sefydlwyd Cylch Cadwgan yn 2001 gan bump o fudiadau lleol i gynnal nosweithiau llenyddol. Ymhlith gwesteion Clwb y Dwrlyn roedd Y Taeogion, Lyn Ebeneser, Twm Morys, Aled a Jim Jones Parc Nest, Cefin Roberts, Y Prifardd Geraint, Karen Owen a Ffion Dafis.



2001 Y Taeogion



2000 Stadiwm y Mileniwm



1997 Euros Jones Evans yn arwain taith i Ddinefwr



2019 Frank Olding yng Nghaerllion

# Penwythnosau

Trefnwyd cyfle i ymweld ag arfordir y gorllewin, y canolbarth a'r gogledd ac ambell lecyn mynyddig ers cychwyn yn 2000.



2000 Tŷ Ddewi



2009 Aberporth



2014 Porthdinllaen



2013 Arfordir Sir Benfro

# Cyfarfodydd

Parc y Dwrlyn yw maes Clwb Rygbi Pentyrch a daeth yn gartref cynnes a chroesawus i Glwb y Dwrlyn o'r cychwyn. Hefyd mae'r cyfarfodydd wedi crwydro i Ysgol Creigiau, Neuaddau Pentyrch a Chreigiau, Bethlehem, Acapela a thafarnau'r cylch.

Cawsom ein diddanu gan bob math o gymeriadau dros y blynyddoedd gyda chynulleidfaoedd niferus.

Ymhlith yr uchafbwyntiau - T.W.Thomas, Brian Davies, Telynores Llwchwr, Catrin Dafydd, Gari Williams, Yr Athro Prys Morgan, John Ogwen a Maureen Rhys, Tudur Owen, John Pierce Jones, Delwyn Siôn, Guto Hari, a Robat Arwyn.



2016 Y Gynulleidfa Selog yn y Clwb Rygbi



2009 Dewi Pws yn cael ei holi gan Huw

Nosweithiau Huw yn Holi - Dewi Pws, Beti George, Dafydd Iwan, Bryn Fôn, Don Llewellyn a Clive Rowlands.

# Cinio Gŵyl Dewi

Mae'r cinio blynyddol wedi cael croeso mewn amryw fwyty yn cynnwys Gwesty'r Elái, Tretomos, Tŷ'r Isha, Neuadd Llechwen, Mount Sorrel, Clybiau Golff Radyr a Chreigiau. Ymhlith y gwestai nodedig roedd Dai Francis, Hywel Teifi Edwards, Caryl Parry Jones, Dafydd Wigley, John Ogwen a'r Prif-fardd Cyril Jones.



2000 Aros am y bws i'r Cinio Gŵyl Dewi

# Yr Ŵyl Ddrama

Roedd Gŵyl Ddrama Tafod Elái yn gyfle gwych i ddangos doniau Clwb y Dwrlyn a chyflwnwyd cynhyrchiadau arbennig.

**Cynhyrchiadau Clwb y Dwrlyn**
**Gŵyl Ddrama Tafod Elai 1986 - 2002**

1986 Y Fainc. Ifan Wyn Williams - Tlws yr Actor Orau
1987 Y Dyn Codi Pwysau
1988 Pry Ffenast
1992 Dirgelwch yr Awr Ginio
1993 Hi o Bawb - Tlws Oedolion.
Pen-blwydd Hapus - Tlws Noson Lawen.
1994 Gwirion Hen. Helynt y Buarth.
Swyn Gyfareddwr - Tlws y Noson lawen.
1995 Colli John Albert. Diwrnod i'r Becar - Tlws Oedolion. Tip Top - Tlws Noson Lawen
1996 Dirgelwch y Caribian Ciwcymbyr. Steil ar Ben Stôl.
Sêr yn eu Llygaid - Tlws y Noson Lawen.
1997 Tu Hwnt i'r Llenni.
1998 Dewyth Jac



1986 Y Fainc



1994 Gwirion Hen



1995 Noson Lawen Tip Top



1996 Steil ar Ben Stôl

# Hwyl y Rasus

Roedd Cwrs Rasio Casgwent, yn 1999 a 2008, a Cwrs Ffos Las yn 2010, wedi denu rhai o'r gamblwyr mwyaf i wneud eu ffortiwn.



1999 Casgwent




1993 Noson Lawen - Pen-blwydd Hapus



1992 - Dirgelwch yr Awr Ginio



1996 - Dirgelwch y Caribian Ciwcymbyr.

# Y Rifiw

Cynhaliwyd Dwli'r Mochyn yn 2003 a 2004. Yna yn 2006, o dan arweinyddiaeth Ifan a Mags, dechreuwyd ar Y Rifiw blynyddol yn Neuadd y Pentref. Symudodd Y Rifiw i'r Clwb Rygbi yn 2011 a daeth Colin a Nia i arwain yn 2014.



2006 Priodas Barti Ddu



2008 Trafferth gyda Peiriant Talu Tesco



2010  Priodas y Mantis




2017 Y Côr yn cloi Y Rifiw

# Don Llewellyn

Darlith gan Don Llewellyn oedd ail ddigwyddiad Clwb y Dwrlyn yn 1979. Ers hynny mae Don wedi ein haddysgu yn gyson am hanes yr ardal a'i chymeriadau drwy ei sgyrsiau ac yn arbennig ei deithiau cerdded.



1999 Maes Rasus Ceffylau Pentyrch



2003 Uwchben y Chwarel



2006 Pentyrch



2019  Paratoi am Brexit

# Y Pwyllgor

Mae'n siwr fod pawb yn werthfawrogol o'r gwaith gyflawnwyd dros y blynyddoedd gan y Cadeiryddion, Swyddogion ac Aelodau Pwyllgor Clwb y Dwrlyn i sicrhau ein llwyddiant.

Mae cysylltiadau ar draws Cymru wedi cynorthwyo i ddenu pobl i'n diddori a'n diddanu. Llwyddwyd i godi arian i achosion da megis yr Eisteddfodau, Cylchoedd Meithrin, Tŷ Hafan ac eraill.



2017 Pobl Dyffryn Nantlle yn cael y sylw eto wrth i Huw holi Bryn Fôn



Cymdeithas Gymraeg Pentyrch, y Creigiau, a Gwaelod y Garth

1979-80

| | |
|---|---|
| Medi 20 | Y Diliau |
| Hydref 18 | Darlith - Don Llewellyn |
| Tachwedd 15 | Noson o ffilmiau Cymraeg |
| *Rhagfyr 20 | Parti Nadolig a Disco y Plant, Neuadd y Pentre |
| Ionawr 17 | Darlith - Gwr Gwadd |
| Chwefror 21 | Brethyn Cartref Pentyrch v Creigiau v Gwaelod y Garth |
| *Mawrth 1 | Dawns a Cawl neu Cawl o Ddisco, Neuadd y Pentre |
| Mawrth 20 | Garddio gyda Richard Bowering |
| Mai 15 | Helfa Drysor |
| Mehefin 21 | Gwibdaith am y diwrnod a Bar B Ciw yn y nos |



2004 Rhai o'r cyn-gadeiryddion yn dangos eu doniau dawnsio gwerin

## Dawnsio

I'n cadw'n heini cynhaliwyd Twmpathau a Dawnsfeydd gyda sêr y byd pop.



1998 Dafydd Iwan yn Neuadd Dowlais

Englyn Yr Helfa Drysor

Ewch â'ch gwae i bedwar ban daer ar ras,
Mae trysor ar wasgar;
Rhaid ei hel, fy nghatrawd wâr—
Ewch! Ewch! Ceisiwch i Cesar!
Rhys Dafis.



1990 Sobin a'r Smaeliaid





Arlwyo yn 1983 ac 1988



2002 Twmpath Dawns gyda Jac y Do



2002 Twmpath Hwyl i'r Teulu

Rhagor o luniau - www.tafelai.com

# Y Nadolig, Y Fari Lwyd a'r Plygain

Yn y blynyddoedd cynnar trefnwyd Parti Nadolig i'r Plant ac yna Canu Carolau ar strydoedd oer ein pentrefi. Casglwyd cannoedd o bunnau i Ysgol Craig y Parc. Cynhyrchwyd Pantomeim i ddiddori'r plant a'r oedolion. Cynhaliwyd Cinio Nadolig yn y King's Arms i ddechrau ac yna De Courcey's.

Daeth y Fari Lwyd o Gaerdydd i ymweld yn 1996 a phenderfynwyd ail godi traddodiad y Fari Lwyd ym Mhentyrch.

Dechreuwyd Canu'r Plygain yn Eglwys Pentyrch yn 2012 gyda'r Fari Lwyd yn ymweld â'r King's Arms yr un noson.


1997 yn Nhafarn y King's


1995 Panto Sinderela a'r Spectol Hud


2002 yn y Lewis Arms


2004 Canu Carolau

# Sgïo'r Dwrlyn

Syniad Colin oedd ein herio i fynd ar y piste ac yn fuan roedd llond bws dwbl ar gyfer y daith gyntaf Calan 1995.

1995 Valloire 1996 Alpe d'Huez 1997 Sauze d'Oulx
1998 Cesana 1999 Sauze d'Oulx 2000 Mayrhofen
2001 Kitzbhuel 2002 Soldeu 2003 Soldeu


1995 Valloire


2002 Soldeu


2016 Canu'r Plygain


2000 Cerdded i ben y Garth i ddathlu'r Mileniwm

Cyhoeddwyd - Penri Williams - Rhagfyr 2019